Rhif: **WG26995**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2017/18

Cynigion dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir ar gyfer y flwyddyn ysgol 2017/18

Dyddiad cyhoeddi: **9 Tachwedd 2015**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **1 Chwefror 2016**

# Cysoni dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2017/18

**Trosolwg**

Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol anfon eu dyddiadau tymhorau ysgol 2017/18 ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd penodol i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn deillio o ofynion Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 a ddaeth i rym ar 15 Gorffennaf 2014, ac yn cynnwys dyddiadau tymhorau a bennwyd gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn ogystal â'r dyddiadau a bennwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer pob ysgol arall a gynhelir yn eu hardaloedd.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi coladu dyddiadau'r tymhorau a anfonwyd o bob cwr o Gymru, ac wedi sylwi nad yw dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni eto. O ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru am ystyried defnyddio eu pwerau o dan Ddeddf Addysg 2002 i gysoni dyddiadau tymhorau ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18. O dan Ddeddf 2002 a Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) 2014, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar eu cynigion ar gyfer dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am eich barn ar y dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2017/18 a'r cyfarwyddyd drafft cysylltiedig a amlinellir isod.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **1 Chwefor 2016** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

Deddf Addysg (Cymru) 2014
www.legislation.gov.uk/anaw/2014/5/contents/enacted/welsh

Deddf Addysg 2002
www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents

Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014
www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1249/contents/made/welsh

Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014
www.legislation.gov.uk/wsi/2014/1462/contents/made/welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG26995

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Llywodraethu Ysgolion
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 5485

Ffacs: 029 2080 1044

**Diogelu data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys

1. Rhagair y Gweinidog 2
2. Cyflwyniad 3
3. Dadansoddiad o’r hysbysiadau o ddyddiadau tymhorau a dderbyniwyd 5
4. Dyddiadau tymhorau sy’n cael eu cynnig ar gyfer 2017/18 a chyfarwyddyd drafft cysylltiedig 9
5. Cwestiynau’r ymgynghoriad 10
Atodiad: Cyfarwyddyd drafft a dogfennau ategol 11

# 1. Rhagair y Gweinidog

Ers cael fy mhenodi'n Weinidog Addysg a Sgiliau, rwyf wedi bod yn ymwybodol o'r anawsterau a'r costau cynyddol sy'n wynebu llawer o deuluoedd wrth iddynt orfod talu costau gofal plant ychwanegol yn sgil amrywiadau yn nyddiadau tymor ysgolion ac, felly, gwyliau'r ysgol.


Er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, defnyddiais Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 i wneud newidiadau deddfwriaethol i'r broses o bennu dyddiadau tymhorau fel bod modd cysoni dyddiadau tymhorau pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

Mae'r newidiadau'n golygu fy mod yn gallu cyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ynglŷn â dyddiadau eu tymhorau, os nad yw'r dyddiadau hynny wedi'u cysoni, neu os oes angen eu newid.

Defnyddiais y pwerau hyn am y tro cyntaf ar gyfer blwyddyn ysgol 2016/17 ar ôl pwyso a mesur yn ofalus yr hysbysiadau wedi'u llofnodi a dderbyniwyd gan 21 awdurdod lleol ac ar gyfer 70 o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig, ynghyd â gwybodaeth heb ei dilysu a gafwyd, yn cynnwys hysbysiadau heb eu llofnodi. Bûm yn ystyried ymateb i ymgynghoriad 12 wythnos o hyd hefyd. Cyhoeddwyd fy nghyfarwyddyd i awdurdodau lleol ac ysgolion yn pennu dyddiadau tymhorau 2016/17 ar 24 Mehefin 2015.

Mae hysbysiadau bellach wedi dod i law gan bob un o'r 22 awdurdod lleol ac ar ran nifer fawr o gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ynghylch dyddiadau'r tymhorau sydd ganddynt mewn golwg ar gyfer 2017/18. Mae wedi bod yn galonogol gweld mwy o gysondeb o gymharu â'r flwyddyn gynt. Rwy'n falch hefyd fod rhagor o awdurdodau lleol wedi ymateb mewn perthynas ag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig. Mae'n amlwg o'r hysbysiadau a dderbyniwyd fod awdurdodau ac ysgolion wedi gwneud cryn dipyn o waith er mwyn sicrhau cysondeb. Fodd bynnag, er gwaethaf eu hymdrechion, nid yw dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni ac felly byddaf yn ystyried defnyddio fy mhwerau o dan y Ddeddf unwaith yn rhagor, er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi'r dyddiadau tymhorau sydd gennyf mewn golwg ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18. Rwy'n gwahodd ac yn croesawu barn pob rhanddeiliad allweddol ar y dyddiadau a awgrymir yn yr ymgynghoriad hwn a'r cyfarwyddyd drafft.



**Huw Lewis AC**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**

## 2. Cyflwyniad

2.1 Cyflwynodd Deddf Addysg (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”) newidiadau i’r broses o bennu dyddiadau tymhorau yng Nghymru drwy fewnosod deddfwriaeth ar gyfer Cymru yn unig yn Neddf Addysg 2002 (“Deddf 2002”). O ganlyniad, er bod awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig (“cyrff llywodraethu perthnasol”) yn cadw’r hawl i bennu dyddiadau tymhorau eu hysgolion, mae dyletswydd arnynt hefyd bellach i gydweithio a chydgysylltu i sicrhau bod y dyddiadau hynny'r un fath neu mor debyg ag y gallant fod. Os, er gwaethaf pob ymdrech, nad oes modd cytuno ar ddyddiadau tymhorau, mae Deddf 2002 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru “gamu i mewn” a chyfarwyddo awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ynglŷn â dyddiadau eu tymhorau, er mwyn cysoni dyddiadau tymhorau ledled Cymru.

2.2 Mae darpariaethau yn Neddf 2002 yn ei gwneud hi’n ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am y dyddiadau tymhorau sydd wedi’u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir (yn cynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig) yn eu hardaloedd ac mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheoliadau sy’n pennu sut ac erbyn pryd y mae’n rhaid i awdurdodau lleol eu hysbysu am y dyddiadau hynny.

2.3 Daeth Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 i rym ar 15 Gorffennaf 2014. Mae’r rheoliadau hyn yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hysbysu Gweinidogion Cymru am y dyddiadau tymhorau a bennwyd ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd erbyn diwrnod gwaith olaf mis Awst (yn yr achos hwn, dyddiadau tymhorau 2017/18, erbyn 28 Awst 2015).

2.4 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru bellach wedi coladu a dadansoddi’r dyddiadau a gyflwynwyd ar gyfer pob awdurdod lleol ac ar gyfer mwyafrif yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ledled Cymru, ac maent wedi canfod nad yw’r dyddiadau wedi’u cysoni. Felly, mae Gweinidogion Cymru am ystyried defnyddio’u pwerau cyfarwyddo i sicrhau bod dyddiadau tymhorau yn cael eu cysoni ledled Cymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18.

2.5 Fodd bynnag, cyn gwneud hynny, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad priodol. Yn ogystal, mae Rheoliadau Addysg (Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 (“y Rheoliadau Ymgynghori”) – sy’n cael eu gwneud o dan bwerau sydd bellach wedi’u cynnwys yn Neddf 2002 – yn nodi gofynion pellach mewn perthynas â ffurf a hyd yr ymgynghoriad y mae’n rhaid i Weinidogion Cymru ei gynnal cyn iddynt ddefnyddio pwerau o ran pennu dyddiadau tymhorau.

2.6 Mae’r ymgynghoriad hwn yn sicrhau cydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru â rheoliadau Ymgynghoriad 2014. Mae’n gofyn am eich barn ar y dyddiadau tymhorau a gynigir gan Weinidogion Cymru ac a fydd yn

berthnasol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18, a'r cyfarwyddyd drafft cysylltiedig yn yr Atodiad.

# 3. Dadansoddiad o'r hysbysiadau o ddyddiadau tymhorau a dderbyniwyd

### *Hysbysiadau a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion lle mae awdurdodau lleol yn pennu dyddiadau tymhorau*

3.1 Cyflwynodd pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru hysbysiadau o ddyddiadau tymhorau 2017/18 ar gyfer yr ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir y maent yn gyfrifol am bennu eu dyddiadau tymhorau ("ysgolion rheolaidd"). Roedd dau grŵp gwahanol eleni o gymharu â phedwar y llynedd. Mae'r dyddiadau sydd wedi'u pennu gan y ddau grŵp o awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn Atodiad B o'r cyfarwyddyd drafft ar dudalen 20.

3.3 Mae Grŵp Awdurdodau Lleol A yn cynnwys pob awdurdod lleol yn y De, ynghyd â thri yn y Canolbarth a'r Gorllewin, sef Sir Gâr, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Ynys Môn yn y Gogledd hefyd. Mae Grŵp Awdurdodau Lleol B yn cynnwys Powys a phump o'r chwe awdurdod yn y Gogledd, sef Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam.

3.5 Dylid nodi bod rhywfaint o gysondeb rhwng y dyddiadau a bennwyd gan y ddau Grŵp, sef hanner tymor yr hydref yn 2017 o 30 Hydref i 3 Tachwedd; gwyliau'r Nadolig o 25 Rhagfyr 2017 i 5 Ionawr 2018 a gwyliau hanner tymor yr haf 2018 o 28 Mai i 1 Mehefin.

3.6 Fodd bynnag, mae dyddiadau'r tymhorau ar gyfer gweddill y gwyliau ysgol yn wahanol gyda Grŵp A wedi pennu diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol yn 2017 fel 4 Medi (dydd Llun) tra bod Grŵp B wedi ei bennu yn gynt ar 1 Medi (y dydd Gwener cynt). Yn ogystal mae gwyliau hanner tymor y gwanwyn 2018 wedi'u pennu fel 19 Chwefror i 23 Chwefror gan Grŵp A ond mae Grŵp B wedi pennu'r gwyliau hyn wythnos yn gynt rhwng 12 Chwefror a 16 Chwefror.

3.7 O ran gwyliau'r Pasg yn 2018, mae Grŵp A wedi pennu'r gwyliau fel dydd Gwener 30 Mawrth i ddydd Gwener 13 Ebrill (11 diwrnod). Mae Grŵp B wedi pennu'r gwyliau fel dydd Llun 26 Mawrth i ddydd Gwener 6 Ebrill (10 diwrnod). Yn achos dyddiadau Grŵp B, byddai ysgolion ar gau yn ystod Wythnos y Pasg 2018, sy'n dechrau ddydd Sul 25 Mawrth ac yn gorffen ddydd Sadwrn 31 Mawrth. Mae dyddiadau Grŵp A wedi'u pennu fel bod ysgolion yn aros ar agor yn ystod Wythnos y Pasg hyd at ac yn cynnwys Dydd Iau Cablyd ar 29 Mawrth.

3.8 Mae'r ddau Grŵp wedi pennu dyddiadau gwahanol ar gyfer diwrnod olaf y flwyddyn ysgol yn 2018, gyda Grŵp A wedi pennu dydd Mawrth 24 Gorffennaf a Grŵp B wedi dewis dydd Gwener 20 Gorffennaf.

3.9 Nid oes fawr ddim gwahaniaeth yn hyd y tymhorau sydd wedi'u pennu gan y ddau grŵp. O'r 195 diwrnod (190 o ddyddiau addysgu a 5 diwrnod HMS) mae Grŵp A wedi pennu bod tymor yr hydref 2017 yn 75 diwrnod o hyd, tymor y gwanwyn 2018 yn 54 diwrnod o hyd a thymor yr haf 2018 yn 66 diwrnod o hyd. Ar y llaw arall, mae tymhorau Grŵp B yn para 76, 50 a 69 diwrnod yn ôl eu trefn.

***Hysbysiadau a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig (Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar hysbysiadau a dderbyniwyd ar 12 Hydref 2015 am hanner dydd)***

3.10 Yn ail flwyddyn y trefniadau pennu dyddiadau tymhorau newydd, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr hysbysiadau o ddyddiadau tymhorau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ar ran ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn eu hardaloedd. Erbyn mis Hydref 2015, roedd 107 o hysbysiadau wedi'u llofnodi wedi dod i law (o blith cyfanswm o 168 ysgol) (64%). Mae hyn yn cymharu â 70 hysbysiad a gyflwynwyd o blith cyfanswm o 167 ysgol o'r fath y flwyddyn gynt, h.y. cynnydd o 22%.

3.11 Roedd pob un o'r 107 hysbysiad a lofnodwyd yn cyd-fynd â'i awdurdod lleol perthnasol. Mae dadansoddiad o'r hysbysiadau hyn yn dangos mai dim ond dau grŵp gwahanol o ddyddiadau a gyflwynwyd ar gyfer 2017/18. O'r 107 o hysbysiadau a dderbyniwyd, roedd 72 ohonynt yn cyd-fynd â'u hawdurdodau yng Ngrŵp A tra bod y 35 arall yn cyd-fynd â'u hawdurdodau yng Ngrŵp B.

3.12 O'r 72 a oedd yn cyd-fynd â Grŵp A, roedd 47 (65%) ohonynt yn Ysgolion Catholig. O'r 35 hysbysiad a gafwyd gan Grŵp B, dim ond 15 o'r rhain (42%) oedd yn Ysgolion Catholig.

3.13 O ran dyddiadau tymhorau heb eu dilysu, cafwyd dyddiadau tymhorau gan 20 ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol sefydledig arall. Roeddent heb eu llofnodi, yn anghyflawn neu wedi'u cadarnhau drwy'r awdurdod lleol gan mwyaf. Cyflwynodd dwy ysgol yng Nghaerdydd ddyddiadau tymhorau heb eu llofnodi a oedd yn wahanol i ddyddiadau'r awdurdod lleol. Roedd ambell wahaniaeth gyda dechrau a diwedd y flwyddyn ysgol a dechrau tymor y gwanwyn.

3.14 Wrth gydlynu pob ffurflen dyddiadau tymhorau, mae Gweinidogion Cymru yn deall bod y dasg o gydlynu dyddiadau tymhorau a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn anoddach i rai awdurdodau lleol na'i gilydd, yn dibynnu ar nifer yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu'r ysgolion sefydledig yn eu hardal.

3.15 Cyflwynodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol rai hysbysiadau gan yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu'r ysgolion sefydledig yn eu hardal. Cyflwynodd deg awdurdod lleol (Abertawe, Bro Morgannwg, Casnewydd, Gwynedd, Merthyr Tudful, Sir Benfro, Sir Fynwy, Sir y Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn) ddyddiadau wedi'u llofnodi ar gyfer pob un o'r

ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu'r ysgolion sefydledig yn eu hardal.

3.16 Cyflwynodd Blaenau Gwent, Caerdydd, Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Ceredigion, Conwy, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen rai hysbysiadau wedi'u llofnodi ar gyfer rhai o'u hysgolion neu fe wnaethant gyflwyno hysbysiadau heb lofnod neu anghyflawn, neu negeseuon e-bost i gadarnhau bod yr ysgolion hyn yn fodlon cyd-fynd â'u hawdurdod lleol er nad oeddent wedi darparu hysbysiad wedi'i lofnodi.

3.17 Ni chyflwynwyd hysbysiadau wedi'u llofnodi ar gyfer yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu'r ysgolion sefydledig yn ardaloedd Caerffili, Sir Ddinbych neu Bowys, er i Gaerffili gyflwyno un hysbysiad heb lofnod.

***Cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion ar gyfer 2017/18 rhwng consortia rhanbarthol***

3.18 Roedd rhywfaint o dystiolaeth hefyd fod consortia'n ceisio cysoni dyddiadau tymhorau ar gyfer 2017/18. Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De a Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) De-ddwyrain Cymru yn gyson, gyda phob un o'r awdurdodau sy'n aelodau ohonynt yn perthyn i Grŵp A o Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn cyfrif am 10 awdurdod lleol.

3.19 Mae De-orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW) wedi'u cysoni gan mwyaf, gyda phob un o'r awdurdodau sy'n aelodau ohonynt yn perthyn i Grŵp A heblaw Powys, sydd yng Ngrŵp B.

3.20 Roedd yr awdurdodau sy'n aelodau o gonsortiwm rhanbarthol GwE (Gogledd Cymru) yn perthyn i Grŵp B gan mwyaf – awdurdod lleol Ynys Môn oedd yr unig un oedd yn perthyn i Grŵp A.

***Casgliad***

3.21 Mae'n galonogol bod cryn dipyn mwy o dystiolaeth o gysoni yn y broses hon ar gyfer dyddiadau 2017/18 o gymharu â'r broses flaenorol ar gyfer cysoni dyddiadau tymhorau 2016/17. Cafwyd ymateb gwell o lawer gan awdurdodau lleol ac ysgolion hefyd yn sgil cyfanswm yr hysbysiadau a dderbyniwyd.

3.22 Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr holl hysbysiadau'n ofalus iawn ac maent wedi penderfynu cynnig bod pob ysgol a gynhelir yng Nghymru yn dilyn y dyddiadau tymhorau a bennwyd gan yr awdurdodau lleol yng Ngrŵp A am y rhesymau canlynol:

- Gwnaeth mwyafrif yr awdurdodau lleol bennu dyddiadau tymhorau yng Ngrŵp A – un ar bymtheg o gymharu â 6 yn unig a bennodd ddyddiadau yng Ngrŵp B.

- Gwnaeth mwyafrif yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig y cyflwynwyd hysbysiadau ar eu cyfer bennu dyddiadau yng

Ngrŵp A – saith deg dau y cant o gymharu â thri deg pump a bennodd ddyddiadau yng Ngrŵp B.

- O blith y rhain, gwnaeth mwyafrif yr ysgolion Catholig bennu dyddiadau yng Ngrŵp A - pedwar deg saith o gymharu â thri deg pump a bennodd ddyddiadau yng Ngrŵp B.

- Byddai'r dyddiadau a gynigwyd gan Grŵp A ar gyfer y Pasg yn golygu bod ysgolion Catholig yn aros ar agor yn ystod wythnos y Pasg yn 2018.

- Gellid ystyried bod y dyddiadau a bennwyd gan Grŵp A yn ffafrio'r ardaloedd awdurdod lleol mwy trefol yn y De. Fodd bynnag, mae ardaloedd mwy gwledig, fel Ceredigion a Sir Gâr, ac un awdurdod lleol yn y Gogledd, Ynys Môn, wedi dewis cyd-fynd â'r mwyafrif yng Ngrŵp A.

- Nid yw dyddiadau'r Sioe Frenhinol wedi'u cyhoeddi hyd yma. Fodd bynnag, mae Powys wedi pennu dyddiadau yng Ngrŵp B, lle byddai ysgolion yn cau am yr haf ar 20 Gorffennaf, cyn i'r Sioe ddechrau ar 23 Gorffennaf yn ôl pob tebyg (os ydym wedi dyfalu'r dyddiadau'n gywir gan nad oes dyddiadau pendant ar wefan y Sioe). Fodd bynnag, mae awdurdodau sy'n ffinio â Phowys, fel Sir Gâr a Cheredigion, wedi cyd-fynd â Grŵp A sy'n golygu y byddai eu hysgolion ar agor am ddeuddydd cyntaf y Sioe, dydd Llun 23 a dydd Mawrth 24 Gorffennaf.

- Mae gan Weinidogion Cymru barch mawr at werth diwylliannol ac economaidd arwyddocaol y Sioe Frenhinol ac maent wedi ystyried effaith y Sioe yn ofalus iawn yn y cynigion hyn. Fodd bynnag, bydd cyfle i athrawon a myfyrwyr fynd i'r Sioe ar y ddau ddiwrnod olaf.

- Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi ymdrechion awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i weithio gyda'i gilydd i sicrhau cysondeb. Byddai cynnig dyddiadau sy'n mynd yn groes i fwyafrif sylweddol yn dibrisio'r ymdrechion hyn. O ystyried hyn a'r pwyntiau eraill uchod, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod hi'n rhesymol cynnig y dyddiadau tymhorau sy'n cyd-fynd â chynigion Grŵp A fel y nodir yn adran 4 isod.

## 4. Dyddiadau tymhorau sy'n cael eu cynnig ar gyfer 2017/18 a chyfarwyddyd drafft cysylltiedig

4.1 Wrth ystyried y pwyntiau ym mharagraff 3.22 uchod, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y dyddiadau tymhorau ysgol a nodir isod ar gyfer 2017/18:

| | |
|---|---|
| **Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol** | **Dydd Llun, 4 Medi 2017** |
| **Gwyliau hanner tymor yr Hydref** | **Dydd Llun, 30 Hydref 2017 tan ddydd Gwener, 3 Tachwedd 2017** |
| **Gwyliau'r Nadolig** | **Dydd Llun, 25 Rhagfyr 2017 tan ddydd Gwener, 5 Ionawr 2018** |
| **Hanner tymor y Gwanwyn** | **Dydd Llun, 19 Chwefror 2018 tan ddydd Gwener, 23 Chwefror 2018** |
| **Gwyliau'r Pasg** | **Dydd Gwener, 30 Mawrth 2018 (h.y. diwrnod olaf yn yr ysgol fydd dydd Iau 29 Mawrth) tan ddydd Gwener, 13 Ebrill 2018** |
| **Hanner tymor yr Haf** | **Dydd Llun, 28 Mai 2018 tan ddydd Gwener, 1 Mehefin 2018** |
| **Diwrnod olaf yn yr ysgol** | **Dydd Mawrth, 24 Gorffennaf 2018** |

4.2 Mae'r dyddiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfarwyddyd drafft yn yr atodiad, y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei gyhoeddi, yn amodol ar ymatebion i'r ymgynghoriad, i sicrhau bod dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2017-18 yn gyson.

## 5. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mewn perthynas â'r dyddiadau tymhorau a gynigir, byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu eich barn ar y cwestiynau canlynol. Defnyddiwch y templed sydd wedi'i ddarparu yn yr ymgynghoriad hwn i gofnodi eich atebion.

# Atodiad: Cyfarwyddyd drafft a dogfennau ategol

## MEMORANDWM ESBONIADOL A CHYFARWYDDYD I'R HOLL AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU A HOLL GYRFF LLYWODRAETHU YSGOLION GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR AC YSGOLION SEFYDLEDIG YNG NGHYMRU O DAN ADRAN 32B O DDEDDF ADDYSG 2002

## MEMORANDWM ESBONIADOL

### Cyflwyniad a Chefndir

1) Mae gan Weinidogion Cymru bwerau cyfarwyddo o dan adran 32B(1) o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002").

2) Diben y ddogfen hon yw darparu datganiad cyhoeddus a thryloyw ar benderfyniad Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd ac amlinellu sut y bydd Gweinidogion Cymru yn pennu dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Bwriad arall y ddogfen yw nodi diben ac effaith y cyfarwyddyd ar gyfer dinasyddion, aelodau, swyddogion a phartneriaid yr awdurdod.

3) Mae adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") wedi gwneud newidiadau i'r broses o bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer ysgolion a gynhelir yng Nghymru drwy fewnosod adrannau newydd 32A i 32C yn Neddf 2002. O ganlyniad, mae awdurdodau lleol yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir. Yn ogystal, mae cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig ("cyrff llywodraethu perthnasol") yn cadw'r hawl i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion. Mae gan awdurdod lleol ddyletswydd i gydweithredu a chysylltu â phob corff llywodraethu perthnasol yn ei ardal ac â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru wrth bennu dyddiadau tymhorau fel bod y dyddiadau hynny'r un fath neu eu bod mor debyg ag y gallant fod. Yn yr un modd, mae gan gorff llywodraethu perthnasol ddyletswydd i gydweithredu a chysylltu â phob corff llywodraethu perthnasol yn ardal yr awdurdod lleol ac â'r awdurdod lleol yn ardal yr ysgol wrth bennu dyddiadau tymhorau fel bod y dyddiadau hynny'r un fath neu eu bod mor debyg ag y gallant fod.

4) Mae'r term "ysgol a gynhelir" yn cael ei ddiffinio yn adran 32A(9) o Ddeddf 2002 ac mae'n cynnwys ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol (gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir), ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir. Mae'r adran hon yn diffinio "dyddiadau tymhorau" fel dyddiadau dechrau a gorffen tymhorau a gwyliau ysgol.

5) Os, er gwaethaf pob ymdrech, nad oes modd cytuno ar ddyddiadau tymhorau, mae adran 32B(1) o Ddeddf 2002 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol ynglŷn â dyddiadau eu tymhorau.

6) Mae adran 32A(5) o Ddeddf 2002 yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau'r tymhorau y maent wedi'u pennu ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardaloedd perthnasol. Mae'r rheoliadau a wnaed yn unol ag adran 32A(6) o Ddeddf 2002 yn pennu ffurf yr hysbysiad hwnnw. Effaith Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 ("y Rheoliadau Hysbysu") yw bod rhaid darparu dyddiadau tymhorau erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst (yn yr achos hwn, 28 Awst 2015).

7) Mae'r Rheoliadau Hysbysu yn darparu hefyd fod modd cwblhau ac anfon hysbysiadau at Weinidogion Cymru drwy ddull electronig. Gan fod angen i gadeirydd neu is-gadeirydd corff llywodraethu perthnasol lofnodi'r hysbysiad ar ran yr ysgol, yn ogystal â chyfarwyddwr addysg yr awdurdod lleol perthnasol, mae'r Rheoliadau Hysbysu hefyd yn darparu ar gyfer defnyddio hysbysiadau rhannol sy'n cynnwys dyddiadau tymhorau ar gyfer un ysgol neu fwy.

8) O ganlyniad i'r broses cysoni dyddiadau tymhorau yn 2014/15, bydd dyddiadau tymhorau yn cael eu cysoni am y tro cyntaf yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2016/17. Mae dolen i Ddatganiad gan y Gweinidog yn datgan hyn isod.

   http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/schoolterm1617/?lang=cy

9) Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru i bob awdurdod lleol ac ysgol wirfoddol a gynorthwyir ac ysgol sefydledig ar 10 Gorffennaf 2105 yn gofyn iddynt weithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig eraill i bennu dyddiadau tymhorau ac i hysbysu Gweinidogion Cymru am y dyddiadau tymhorau sydd ganddynt mewn golwg erbyn 28 Awst 2015.

10) Mae dadansoddiad o'r hysbysiadau a dderbyniwyd gan Weinidogion Cymru yn dangos nad oedd dyddiadau'r tymhorau yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod) ledled Cymru ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18, er gwaethaf pob ymdrech. Felly, er mwyn cysoni dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru fel nad yw teuluoedd yn cael trafferth trefnu ac ariannu gofal plant ychwanegol pan nad yw dyddiadau tymhorau wedi'u cysoni, cynigiodd Gweinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau cyfarwyddo.

**Dadansoddiad o'r hysbysiadau o ddyddiadau tymhorau a dderbyniwyd erbyn 12 Hydref 2015 am hanner dydd**

*Hysbysiadau gan awdurdodau lleol yng Nghymru*:

11) Cyflwynodd pob un o'r 22 awdurdod lleol hysbysiadau o ddyddiadau tymhorau 2017/18 ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir (h.y. ysgolion y maent yn gyfrifol am bennu eu dyddiadau tymhorau).

12) Cafwyd gwelliant hefyd yn lefel y cysondeb rhwng dyddiadau tymhorau awdurdodau lleol. Cyflwynwyd pedwar grŵp gwahanol o ddyddiadau ar gyfer blwyddyn ysgol 2016/17 ond dim ond dau amrywiad ar gyfer dyddiadau tymhorau blwyddyn ysgol 2017/18. (gweler atodiad A isod).

13) Mae Grŵp Awdurdodau Lleol A yn cynnwys pob Awdurdod y De, Ynys Môn, a Sir Gâr, Ceredigion a Sir Benfro. Mae Grŵp Awdurdodau Lleol B yn cynnwys pump o'r chwe awdurdod yn y Gogledd - Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam a Phowys.

*Hysbysiadau gan gyrff llywodraethu perthnasol:*

14) Cafwyd gwelliant hefyd o ran nifer yr awdurdodau lleol a ddarparodd hysbysiadau wedi'u llofnodi ar gyfer yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a'r ysgolion sefydledig yn eu hardaloedd. Ar gyfer blwyddyn ysgol 2016/17, dim ond 70 ysgol o'r fath o gyfanswm o 167 oedd â hysbysiadau wedi'u llofnodi. Ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18 roedd y nifer wedi codi i 107 o gyfanswm o 168 (ym mis Medi 2015). O ran canran, mae hyn yn gynnydd o 42% ym mlwyddyn 2016/17 i 64% yn 2017/18.

15) Ar gyfer blwyddyn ysgol 2016/17, nid oes unrhyw hysbysiadau wedi'u llofnodi gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sefydledig sydd wedi dewis dyddiadau gwahanol i'w hawdurdod lleol.

*Cysoni rhwng consortia*

16) Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De a Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) De-ddwyrain Cymru yn gyson, gyda phob un o'r awdurdodau sy'n aelodau ohonynt yn perthyn i Grŵp A o Awdurdodau Lleol.

17) Mae pob awdurdod yng nghonsortia De-orllewin a Chanolbarth Cymru (ERW), ac eithrio Powys, yn gyson â'r dyddiadau yng Ngrŵp A. Roedd Powys wedi cysoni â'r dyddiadau yng Ngrŵp B.

18) Ac eithrio Ynys Môn, roedd yr awdurdodau sy'n aelodau o gonsortiwm rhanbarthol GwE wedi cysoni â'r dyddiadau tymhorau yng Ngrŵp B. Roedd Ynys Môn yn gyson â dyddiadau tymhorau Grŵp A.

**Casgliad**

19) Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr holl hysbysiadau'n ofalus iawn ac maent wedi penderfynu cynnig bod pob ysgol a gynhelir yng Nghymru

yn dilyn y dyddiadau tymhorau a bennwyd gan yr awdurdodau lleol yng Ngrŵp A am y rhesymau canlynol:

- Gwnaeth mwyafrif yr awdurdodau lleol bennu dyddiadau tymhorau yng Ngrŵp A – un ar bymtheg o gymharu â 6 yn unig a bennodd ddyddiadau yng Ngrŵp B.

- Gwnaeth mwyafrif yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig y cyflwynwyd hysbysiadau ar eu cyfer bennu dyddiadau yng Ngrŵp A – saith deg dau y cant o gymharu â thri deg pump a bennodd ddyddiadau yng Ngrŵp B.

- O blith y rhain, gwnaeth mwyafrif yr ysgolion Catholig bennu dyddiadau yng Ngrŵp A - pedwar deg saith o gymharu â thri deg pump a bennodd ddyddiadau yng Ngrŵp B.

- Byddai'r dyddiadau a gynigwyd gan Grŵp A ar gyfer y Pasg yn golygu bod ysgolion Catholig yn aros ar agor yn ystod wythnos y Pasg yn 2018.

- Gellid ystyried bod y dyddiadau a bennwyd gan Grŵp A yn ffafrio'r ardaloedd awdurdod lleol mwy trefol yn y De. Fodd bynnag, mae ardaloedd mwy gwledig, fel Ceredigion a Sir Gâr, ac un awdurdod lleol yn y Gogledd, Ynys Môn, wedi dewis cyd-fynd â'r mwyafrif yng Ngrŵp A.

- Nid yw dyddiadau'r Sioe Frenhinol wedi'u cyhoeddi hyd yma. Fodd bynnag, mae Powys wedi pennu dyddiadau yng Ngrŵp B, lle byddai ysgolion yn cau am yr haf ar 20 Gorffennaf, cyn i'r Sioe ddechrau ar 23 Gorffennaf yn ôl pob tebyg (os ydym wedi dyfalu'r dyddiadau'n gywir gan nad oes dyddiadau pendant ar wefan y Sioe). Fodd bynnag, mae awdurdodau sy'n ffinio â Phowys, fel Sir Gâr a Cheredigion, wedi cyd-fynd â Grŵp A sy'n golygu y byddai eu hysgolion ar agor am ddeuddydd cyntaf y Sioe, dydd Llun 23 a dydd Mawrth 24 Gorffennaf.

- Mae gan Weinidogion Cymru barch mawr at werth diwylliannol ac economaidd arwyddocaol y Sioe Frenhinol ac maent wedi ystyried effaith y Sioe yn ofalus iawn yn y cynigion hyn. Fodd bynnag, bydd cyfle i athrawon a myfyrwyr fynd i'r Sioe ar y ddau ddiwrnod olaf.

- Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi ymdrechion awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i weithio gyda'i gilydd i sicrhau cysondeb. Byddai cynnig dyddiadau sy'n mynd yn groes i fwyafrif sylweddol yn dibrisio'r ymdrechion hyn. O ystyried hyn a'r pwyntiau eraill uchod, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod hi'n rhesymol cynnig y dyddiadau tymhorau sy'n cyd-fynd â chynigion Grŵp A fel ym mharagraff 20 isod.

**Ymgynghoriad ar y dyddiadau tymhorau sydd mewn golwg ar gyfer 2017/18 a'r Cyfarwyddyd**

20) Cyn defnyddio'u pwerau cyfarwyddo, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad priodol yn unol â Rheoliadau Addysg

(Ymgynghori ar Ddyddiadau Tymhorau Ysgolion) (Cymru) 2014. O ganlyniad, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ar y dyddiadau tymhorau a gynigiwyd gan Weinidogion Cymru rhwng 9 Tachwedd 2015 a 1 Chwefror 2016. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn a oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r dyddiadau tymhorau a oedd gennym mewn golwg ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18 a'r cyfarwyddyd drafft arfaethedig. Dyma'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/18 y bu Gweinidogion Cymru'n ymgynghori arnynt:

| | |
|---|---|
| **Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol** | Dydd Llun 4 Medi 2017 |
| **Gwyliau hanner tymor yr Hydref** | Dydd Llun 30 Hydref 2017 tan ddydd Gwener 3 Tachwedd 2017 |
| **Gwyliau'r Nadolig** | Dydd Llun 25 Rhagfyr 2017 tan ddydd Gwener 5 Ionawr 2018 |
| **Hanner tymor y Gwanwyn** | Dydd Llun 19 Chwefror 2018 tan ddydd Gwener 23 Chwefror 2018 |
| **Gwyliau'r Pasg** | Dydd Gwener 30 Mawrth 2018 tan ddydd Gwener 13 Ebrill 2018 |
| **Hanner tymor yr Haf** | Dydd Llun 28 Mai 2018 tan ddydd Gwener 1 Mehefin 2018 |
| **Diwrnod olaf yn yr ysgol** | Dydd Mawrth 24 Gorffennaf 2018 |

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

**<i ddilyn>**

**Dull gweithredu**

21) Wrth benderfynu a ddylid ymyrryd a sut i wneud hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr egwyddorion canlynol:

a. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod y cyfarwyddyd hwn yn gam difrifol ac nid ar chwarae bach y gwnaethant benderfynu ei gyhoeddi. Mae Gweinidogion Cymru yn fodlon ei bod hi'n rhesymol pennu dyddiadau tymhorau fel eu bod yr un fath ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi digon o amser i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol gytuno ar ddyddiadau eu hunain. Maent hefyd wedi cynnal ymgynghoriad priodol 12 wythnos o hyd i gael barn ar y dyddiadau sydd mewn golwg a'r cyfarwyddyd. Maent yn fodlon, felly, bod modd cyfiawnhau'r cyfarwyddyd hwn.

b. Dylai ymyrraeth fod yn gymesur. Mae dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan Weinidogion Cymru yn y cyfarwyddyd yn berthnasol i flwyddyn ysgol 2017/2018. Mae hyn yn rhoi digon o gyfle i bawb sy'n cael eu heffeithio gan y dyddiadau hynny gynllunio'n briodol. Nid yw Gweinidogion Cymru wedi pennu

dyddiadau tymhorau ar gyfer unrhyw flynyddoedd ysgol eraill yn y cyfarwyddyd hwn, a bydd disgwyl o hyd i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu gytuno ar ddyddiadau tymhorau sydd yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod). Mae dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan Weinidogion Cymru yn ystyried rhai agweddau ar ddyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan bob prif ranbarth yng Nghymru (Gogledd, De, Canolbarth a Gorllewin Cymru). Maent yn ystyried yr ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad 12 wythnos o hyd ar y dyddiadau arfaethedig hefyd.

## Adolygiad Parhaus o'r Cyfarwyddyd

22) Gall Gweinidogion Cymru ddirymu neu ddiwygio'r cyfarwyddyd unrhyw amser, a bydd Gweinidogion Cymru yn adolygu effeithiolrwydd y cyfarwyddyd o dro i dro

## Gorfodi'r Cyfarwyddyd

23) Effaith y Cyfarwyddyd yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu perthnasol bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol yng Nghymru yn unol â'r cyfarwyddyd.

Llofnodwyd gan…………………………………………………..

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: **(insert date)** 2016

## CYFARWYDDYD

1) Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr holl wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol ac maent yn fodlon nad yw dyddiadau'r tymhorau a bennwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion sefydledig yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod).

2) Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn rhesymol y dylai dyddiadau'r tymhorau fod yr un fath. Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn Cyfarwyddo'r awdurdodau lleol yng Nghymru a'r cyrff llywodraethu perthnasol yng Nghymru i bennu dyddiadau'r tymhorau ar gyfer blwyddyn ysgol 2016/17 yn unol â'r Atodlen i'r cyfarwyddyd hwn.

3) Nid yw'r cyfarwyddyd hwn yn ymrwymo unrhyw gyfarwyddiadau gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol.

4) Mae'r cyfarwyddyd hwn yn dod i rym am 9am drannoeth ei lofnodi.

Llofnodwyd gan..........................................................

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: **(nodwch y dyddiad)** 2016

## ATODLEN

Y TYMHORAU A BENNWYD GAN WEINIDOGION CYMRU AR GYFER BLWYDDYN YSGOL 2017/2018

| | |
|---|---|
| **Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol** | Dydd Llun 4 Medi 2017 |
| **Gwyliau hanner tymor yr Hydref** | Dydd Llun 30 Hydref 2017 tan ddydd Gwener 3 Tachwedd 2017 |
| **Gwyliau’r Nadolig** | Dydd Llun 25 Rhagfyr 2017 tan ddydd Gwener 5 Ionawr 2018 |
| **Hanner tymor y Gwanwyn** | Dydd Llun 19 Chwefror 2018 tan ddydd Gwener 23 Chwefror 2018 |
| **Gwyliau’r Pasg** | Dydd Gwener 30 Mawrth 2018 tan ddydd Gwener 13 Ebrill 2018 |
| **Hanner tymor yr Haf** | Dydd Llun 28 Mai 2018 tan ddydd Gwener 1 Mehefin 2018 |
| **Diwrnod olaf yn yr ysgol** | Dydd Mawrth 24 Gorffennaf 2018 |

ATODIAD A

HYSBYSIADAU AM DDYDDIADAU TYMHORAU Y CYTUNWYD ARNYNT

| **Grwpiau Awdurdodau Lleol** | |
|---|---|
| **Grŵp Awdurdodau Lleol A** | **Grŵp Awdurdodau Lleol B** |
| Abertawe | Conwy |
| Blaenau Gwent | Gwynedd |
| Bro Morgannwg | Powys |
| Caerdydd | Sir Ddinbych |
| Caerffili | Sir y Fflint |
| Casnewydd | Wrecsam |
| Castell-nedd Port Talbot | |
| Ceredigion | |
| Merthyr Tudful | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | |
| Rhondda Cynon Taf | |
| Sir Benfro | |
| Sir Fynwy | |
| Sir Gâr | |
| Torfaen | |
| Ynys Môn | |

ATODIAD B

GRWPIAU AWDURDODAU LLEOL

| **Dyddiadau tymhorau/gwyliau ysgol awdurdodau lleol ar gyfer 2017/18** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiadau tymhorau/gwyliau ysgol** | **Grŵp awdurdodau lleol A** | **Grŵp awdurdodau lleol B** |
| *Diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol 2017-18* | Dydd Llun 4 Medi 2017 | Dydd Gwener 1 Medi 2017 |
| *Gwyliau hanner tymor yr Hydref (h.y. y dyddiadau pan nad yw'r disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 30 Hydref 2017 tan ddydd Gwener 3 Tachwedd 2017 | Dydd Llun 30 Hydref 2017 tan ddydd Gwener 3 Tachwedd 2017 |
| *Gwyliau'r Nadolig ( h.y. y dyddiadau pan nad yw'r disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 25 Rhagfyr 2017 tan ddydd Gwener 5 Ionawr 2018 | Dydd Llun 25 Rhagfyr 2017 tan ddydd Gwener 5 Ionawr 2018 |
| *Hanner tymor y Gwanwyn (h.y. y dyddiadau pan nad yw'r disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Llun 19 Chwefror 2018 tan ddydd Gwener 23 Chwefror 2018 | Dydd Llun 12 Chwefror 2018 tan ddydd Gwener 16 Chwefror 2018 |
| *Gwyliau'r Pasg (h.y. y dyddiadau pan nad yw'r disgyblion yn yr ysgol)* | Dydd Gwener 30 Mawrth 2018 tan ddydd Gwener 13 Ebrill 2018 | Dydd Llun 26 Mawrth 2018 tan ddydd Gwener 6 Ebrill 2018 |
| *Hanner tymor yr Haf (h.y. y dyddiadau pan nad yw'r disgyblion yn yr ysgol )* | Dydd Llun 28 Mai 2018 tan ddydd Gwener 1 Mehefin 2018 | Dydd Llun 28 Mai 2018 tan ddydd Gwener 1 Mehefin 2018 |
| *Diwrnod olaf y flwyddyn ysgol 2017-18* | Dydd Mawrth 24 Gorffennaf 2018 | Dydd Gwener 20 Gorffennaf 2018 |